



YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN-Y-MÔR

Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham

Mewn undod mae nerth /Stronger together

05.03.21

Dear Riant/Gofalwr

Dychwelyd Cyfnod Allweddol 2



Bydd pob disgybl o flynyddoedd 3 i 6 yn dychwelyd yn **llawn ar ddydd Llun 15 Mawrth**. Bydd staff cyfnod allweddol 2 yn cael diwrnod cynllunio a pharatoi ar ddydd Gwener Mawrth 12fed i sicrhau bod dychwelyd i'r ysgol ar gyfer disgyblion CA2 yn un diogel. Rwy'n siŵr bod disgyblion ac athrawon yn edrych ymlaen at ddysgu wyneb yn wyneb eto! Mae mesurau Covid

19 yn dal i fod ar waith ar gyfer holl ddisgyblion gan gynnwys golchi dwylo'n rheolaidd, pellhau cymdeithasol, swigod a'r holl fesurau eraill sydd ar waith i gadw cymuned yr ysgol yn ddiogel. **Cofiwch wisgo mwgwd wyneb** ar amseroedd gollwng a chasglu. Amser casglu - 3.10pm ar gyfer Blynnyddoedd 3 a 4, 3.20pm ar gyfer blynnyddoedd 5 a 6. Os ydych wedi'ch eithrio rhag gwisgo mwgwd wyneb, rhowch wybod i'r swyddfa. Trwy ein hymdrechion, gallwn geisio rheoli heintiau cofid 19 posibl rhag effeithio lles ac addysg ein plant.

A gaf i atgoffa rhieni na ddylech anfon eich plentyn i'r ysgol os oes gan eich plentyn neu unrhyw un ar yr aelwyd unrhyw un o'r symptomau canlynol:

- peswch newydd neu barhaus
 - Tymheredd uchel
 - Colli blas neu arogl
- Rhowch **wybod i'r ysgol ar unwaith** os oes unrhyw un yn y cartref yn profi'n bositif am Covid 19.

Clwb Brecwast / Clwb Gofal

Bydd clwb brecwast yn ailgychwyn ar ddydd Llun Mawrth yr 8fed. Bydd y Clwb brecwast yn agor am 7.50am. Bydd yn costio £ 1.50. Er y gwneir pob ymdrech i gynnal swigod penodol yn y neuadd gan ddefnyddio cynllun eistedd a sgriniau, gallai fod, pe bai achos cadarnhaol yn cael ei nodi yn y clwb Brecwast y bydd angen **i'r holl fynychwyr hunan-ynysu**. Felly, fe'ch anogaf i ddefnyddio'r clwb brecwast dim ond os oes gwir angen. Ni fydd y Clwb Gofal yn ailagor am y tro. Mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus.

Diogelwch traffig

Mae traffig bore wedi bod yn brysur yr wythnos hon, gydag ambell i dagfa traffig yn digwydd ar Rodfa Brynmill a Heol St Albans. A allai pob rhiant barcio mewn modd diogel, PEIDIWCH â pharcio ar linellau melyn dwbl a cofiwch yrru gyda gofal a'r diogelwch mwyaf wrth feddwl am eraill.

Trafnidiaeth

Bydd bysiau ysgol yn dychwelyd i'w hamseroedd arferol o Fawrth y 15fed.

Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP

E-bost/ E-mail: yggbrynmor@swansea-edunet.gov.uk

Gwefan/ Website: www.yggbrynmor.co.uk

Trydar/Twitter: @YGGBrynmor1

Ffôn/ Tel: 01792 466354





YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN-Y-MÔR

Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham

Mewn undod mae nerth /Stronger together

Diolch **enfawr** i rieni sydd wedi rhannu sylwadau mor gefnogol â'r staff a minnau. Rydym wir yn gwerthfawrogi y gefnogaeth. Maent yn ran bwysig o gefnogi lles staff. Os oes gennych unrhyw bryderon neu angen am gefnogaeth, cysylltwch â'r swyddfa neu e-bostiwch eich athro.

Diolch am eich amynedd a'ch cydweithrediad.

Yn Gywir,

E. Wakeham

Elin Wakeham
Pennaeth

Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP

E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk

Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk

Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1

Ffôn/ Tel: 01792 466354

